# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll

## a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen

Nos Fawrth 14eg o Fai, 2019 am 7:00y.h.



Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | | Cynghorwyr - Griffith Jones **(GJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO)**, Gwilym Williams **(GW)**, Ynyr Ellis **(YE)**, Lizbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ)**, a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)**, Sara Williams **(SW)**. |
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Gan fod SW yn absennol ar ddechrau'r Cyfarfod cychwynnodd YE (Is- Gadeirydd) y Cyfarfod am y tro.<br>Croesawodd pawb i'r Cyfarfod |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts **(OR)**<br>**Absenoldeb –** Emlyn Hughes **(EH)** |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb -** Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Adroddodd SP bod faniau gwersylla wedi bod yn aros dros nos yn y safle parcio'r Nant ond nid oedd golwg ar eu holau. |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod 14eg o Ebrill, 2019** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **LJ** eu cywirdeb, eiliodd **JO** ac fe'u mabwysiadwyd. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | **Cerrig Milltir**<br>Adroddod **SP** ei bod wedi bod o gwmpas yn ceisio darganfod y cerrig yn dilyn cyfarwyddiadau'r Clerc, ond yn anffodus wedi methu dod o hud i run ohonynt. Aeth ymlaen i gadarnhau fod pob un o'r cerrig yn eu lle yn 1932 ond erbyn 1954 dim ond yr un yn Hafod oedd yn eu lle. Ran diddordeb cynigiodd **SP** iddi holi'r Cyngor Sir I weld y drefn o beth fydd y Cyngor yn gwneud gyda'r cerrig pan yn atgyweirio'r lôn. |
| | ***5.2.2*** | **Arwyddion Araf / Gôr yrru yn Llithfaen**<br>Gan nad oedd yr arwyddion wedi ei sefydlu erbyn hyn fel y gaddwyd gan y Cyngor Sir, *y Clerc I ymholi ymhellach.* |
| | ***5.2.3*** | **Sbwriel yn y Pentref**<br>Roedd canmoli mawr gan yr Aelodau gan nad oedd sbwriel wedi ei adael yn y pentref yn dilyn casgliadau'r mis diwethaf.<br>*Y Clerc I yrru canmoliaeth i'r Cyngor Sir* |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979 438 307*

| | | |
|---|---|---|
| | *5.2.4* | **Biniau Baw Ci**<br>Yn dilyn ymholiadau i'r Cyngor Sir cadarnhaodd y Clerc bod cost o £100 I osod yn unig pob biniau baw ci. Felly bydd cost o £300 i osod pob bin a £3.50 am pob gwagied.<br><br>Cynigiodd SP iddi greu cystadleuaeth i blant ysgol Pentre' Uchaf a Nefyn greu poster i godi ymwybyddiaeth i godi baw ci yn y cyfamser gyda gwobr o docyn diwrnod I Gelli Gyffwrdd, eiliodd LJ y cynnig a chytunodd pawb.<br><br>**Cyrhaeddodd SW** |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br><br>Rhif A.O./*O.S* 237888 : 342613<br>Bwriad : Adeiladu adeilad amaethyddol / Construction of agricultural building<br>Lleoliad: Carnguwch Fawr, Llithfaen, Pwllheli, LL536PD<br><br>Yn dilyn trafodaeth cynigiodd **YE** ac eiliodd **GW** nad oedd gwrthwynebiad i'r cais a gyflwynwyd.<br>*Y Clerc i ddiweddaru'r adran briodol o'r Cyngor Sir.* |
| **7.** | | **Wal y Ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>Yn anffodus oherwydd materion personol roedd SP wedi methu mynychu'r cyfarfod a drefnwyd i ymwneud a'r wal. Esboniodd **AWJ** bod trafodaeth wedi bod am fan pasio ar y lon a phenderfyniad bydd adwy yn fwy gweithredol. Credodd bod y Nant wedi clustnodi arian fel cyfraniad at yr amcan bris newydd o £50,000 am y gwaith. Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned ystyried gwneud cyfraniad.<br>*Y Clerc i wneud ymholiadau i Un Llais Cymru am sefyllfa gyfreithiol y Cyngor ar y mater* |
| **8.** | | **Baw Ci yn y Pentref**<br>Gweler 5.2.4 |
| **9.** | | **Materion Lleol**<br>Roedd cais gan AEJ i godi ymwybyddiaeth i bobl lleol am argaeledd 4 Moreia Terrace |
| **10.** | | **BHIB Insurance Renewal - LCO00335**<br>Cynnigiodd **JO** ac eiliodd **GW** i barhau gyda'r Yswiriant am y cyfnod. Cytunodd Pawb<br>*Y Clerc i drefnu* |
| **11.** | <br><br>***11.1***<br>***11.2***<br>***11.3***<br>***11.4***<br>***11.5***<br>***11.6*** | **Gohebiaeth a Gwybodaeth**<br><br>Paneli apêl Mynediad a Gwaharddiadau – *Y Clerc wedi eu cylchredeg – nid oedd sylwadau pellach*<br>Digwyddiad Arloesi Digidol– *Y Clerc wedi eu cylchredeg – nid oedd sylwadau pellach*<br>Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion– *Y Clerc wedi eu cylchredeg – nid oedd sylwadau pellach*<br>Llythyr croeso-aelodaeth o Un Llais I Gymru ar gyfer 2019-20 – *Y Clerc wedi eu cylchredeg – nid oedd sylwadau pellach*<br>Canllawiau ar dalu lwfansau i gynghorwyr – *Penderfynwyd i beidio ei dderbyn yn ystod y cyfarfod blynyddol*<br>Arolwg cynghorau tref a chymuned Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru yn fyw – *Y Clerc wedi eu cylchredeg – nid oedd sylwadau pellach* |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

| | | |
|---|---|---|
| **14.** | | **Cyllid** |
| | *14.1* | **Cyfrifon**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd GW eu cywirdeb ac eiliodd YE a chytunodd pawb. |
| | *14.2* | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**<br>**Taliadau -** Clwb FI yr Eifl - £100<br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc - £15.55<br>**Taliadau**<br>**I Mewn -** Preiseb - £5,000<br>**Balŵns - £5,332.46**<br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br>Taliadau i mewn - £91.07 Rhodd gan y Vic at y Deffib<br>**Balŵns - £3,080.03** |
| | *14.3* | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>£240.00 – Dannys Garden Services- torri gwair Fynwent Pistyll<br>£441.30 – BHIB Insurance<br>£160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 45.35 - Treuliau Clerc<br><br>***Roedd anfoneb am £274.19 wedi ei dderbyn am osod a llenwi biniau halen, gan nid Cyngor Cymuned Pistyll sydd yn gyfrifol am dalu I lenwi bin halen Hendre Penbrys, gofynwyd I'r Clerc gysylltu a'r Cyngor Sir i'w addasu.<br>Y Clerc I addasu'r Cyfrifon I gyd fynd a'r penderfyniad*** |
| **15.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>11eg o Fehefin, 2019 |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979 438 307*